

Mae TGAU Gwyddoniaeth yn cynnig graddau o ansawdd da sy'n galluogi disgyblion i astudio unrhyw gyfuniad o'r Gwyddoniaeth traddodiadol i safon AS/A2. Mae hefyd yn addas ar gyfer addysg bellach.

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs yn cynnig Gwyddoniaeth gytbwys sy'n cynnwys agweddau o Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae'r cwrs yn cynnwys 3 uned waith: BIOLEG 1, CEMEG 1 a FFISEG 1.

Cynnwys

Bioleg 1:

- Amrywiaeth bywyd, addasiad a chystadleuaeth
- Monitro'r amgylchedd, llif egni a throsglwyddo maetholion.
- Etifeddiad
- Amrywiad
- Esblygiad
- Ymateb a Rheoli
- Iechyd

Cemeg 1:

- Elfennau a'r Tabl Cyfnodol
- Cyfansoddion
- Metelau
- Anfetelau
- Adweithiau Asidau
- Y Ddaear sy'n newid yn barhaus

Ffiseg 1:

- Cynhyrchu Trydan
- Trawsyrru Trydan
- Cyflenwi egni a'r cartref
- Trosglwyddo egni
- Nodweddion Tonnau
- Pelydriad sy'n ioneiddio
- Cysawd yr haul a'i le mewn bydysawd sy'n esblygu.

Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r unedau yn cynnwys cymysgedd o waith ysgrifenedig a thasgau ymarferol fydd yn hwyluso'r disgyblion i arddangos:

- eu dealltwriaeth o wyddoniaeth a sut mae gwyddoniaeth yn gweithio;
- cymhwyso sgiliau ac eu gallu i weithredu sgiliau ymarferol,
- eu gallu i ymholi a thrafod data gan ystyried dilysrwydd a pha mor 'ailadroddadwy' ac 'atgynrychadwy' yw'r data a gasglwyd.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

- Bydd arholiad allanol mewn:
 - Bioleg 1 (1 awr) = 25%
 - Cemeg 1 (1 awr) = 25%
 - Ffiseg 1 (1 awr) = 25%
 - * Mae haenau ar gyfer pob asesiad allanol.
 - * Mae pob asesiad allanol yn cynnwys cwestiynau strwythuredig sy'n cynnwys rhywfaint o ysgrifennu estynedig.
- Asesu Mewnol = 25%
Mae hwn yn cynnwys asesiad dan Reolaeth. (fydd yn cael ei ddarparu pob blwyddyn gan CBAC, ei farcio gan athrawon ac yna ei safoni gan CBAC)
Bydd yr asesiad mewn Gwyddoniaeth A yn cynnwys ymarferion byr, trawsbynciol, yn seiliedig ar gynnwys pwnc Bioleg 1, Cemeg 1 a Ffiseg 1. Byddant yn canolbwyntio ar sgiliau ymchwil, rhoi prawf a ragdybiaethau a diogelwch.
- Nid oes haenau ar gyfer yr asesiad dan reolaeth.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mr. Hywel Roberts

